# Ymagwedd strategol at ddata gofal cymdeithasol

*Camau cyflym ymlaen*

Dogfen gryno





# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 2 |
| Cam cyflym ymlaen 1 – Safonau cyffredin ar gyfer data gofal cymdeithasol | Tudalen 4 |
| Cam cyflym ymlaen 2 –Datblygu rolau a chymwyseddau ar gyfer dadansoddwyr gofal cymdeithasol | Tudalen 13 |
| Cam cyflym ymlaen 3 – Ymgysylltu â dinasyddion ac ymarferwyr | Tudalen 21 |
| Cam cyflym ymlaen 4 – Galluogi rhannu data gyda SAIL ac eraill | Tudalen 34 |
| Cam cyflym ymlaen 5 – Datblygu data'r gweithlu gofal cymdeithasol | Tudalen 43 |



# Cyflwyniad

Yng ngham dau yr ymagwedd strategol at ddata gofal cymdeithasol, fe weithiom gyda nifer fach o rhanddeiliaid allweddol o’r llywodraeth, awdurdodau lleol, darparwyr gofal a’r sector gwirfoddol a chymunedol, yn ogystal â dinasyddion ac ymarferwyr, i lunio pum ‘cam cyflym ymlaen’:

| Y pum ‘cam cyflym’ |
|---|
| 1. Safonau cyffredin ar gyfer data gofal cymdeithasol |
| 2. Datblygu rolau a chymwyseddau ar gyfer rolau dadansoddol |
| 3. Dylunio ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion ac ymarferwyr: edrych ar sut rydym ni’n ymgysylltu â’r gymuned |
| 4. Galluogi rhannu data rhwng awdurdodau lleol, SAIL a sefydliadau eraill rhannu data |
| 5. Gweithredu ffordd newydd i rannu data ar y gweithlu gofal cymdeithasol |

Mae’r ddogfen hon yn crynhoi ymagwedd, dulliau a chanfyddiadau pob un o’r camau cyflym ymlaen hyn, gan amlygu hefyd y camau nesaf lle mae gwaith pellach wedi cael ei argymell.

# Yr ymagwedd ‘camau cyflym ymlaen’

Yn unol ag unrhyw brosiect o faint sylweddol, mae llawer iawn i’w ystyried, nifer sylweddol o bobl i ymgysylltu â nhw, a llawer o waith i’w gynllunio. Mae dulliau ystwyth yn wahanol i’r ffyrdd mwy traddodiadol o reoli prosiectau, trwy ganiatáu i rannau gwahanol o’r prosiect gael eu cyflawni’n gyflym o’r dechrau. Caiff pecynnau gwaith llai eu rhedeg ochr yn ochr â’r meysydd gwaith hynny sydd angen mwy o amser a lle i ddatblygu a chyflwyno, i gynnal egni a diddordeb yn y prosiect.

Mae’r elfennau llai hyn wedi cael eu cynllunio i gael eu cyflwyno’n gyflym, heb gymryd mwy na rhai wythnosau i’w cyflwyno, felly’r term ‘camau cyflym ymlaen’. Mae’r math hwn o gyflwyno cyflym yn digwydd trwy gydol y prosiect, a all redeg am sawl blwyddyn. Trwy gynnal y cyflwyno parhaus hwn, nid yw prosiectau’n aros yn llonydd, ac mae datblygiad bob amser yn seiliedig ar feddwl cyfredol, ac nid yw rhanddeiliaid yn aros yn ddiddiwedd i gynhyrchion gael eu cyflwyno.

Mae ‘camau cyflym ymlaen’ yn ôl eu natur yn gyfyngedig  o ran beth maen nhw’n ei gynhyrchu. Caiff rhai eu datblygu i ddechrau sgwrs, mae rhai’n cyflwyno prototeipiau neu fodelau datblygu posibl, bydd rhai’n datblygu atebion cyflym i broblemau, ac efallai y bydd rhai’n cyflwyno cynnyrch ffisegol. Nid y bwriad yw disodli datblygiad manylach ond bod yn rhan o gymysgedd o brosiectau sy’n digwydd ar unrhyw adeg i greu cyfleoedd ar gyfer momentwm a chyflwyno parhaus.

Dewisom gamau cyflym ymlaen yn seiliedig ar y blaenoriaethau a amlygwyd yn ein hadroddiad darganfod. Gall pecynnau gwaith mwy o faint gael eu rhannu’n gamau cyflym ymlaen llai, un ar ôl y llall. Bydd camau cyflym ymlaen eraill yn dod i’r amlwg yn ystod oes y prosiect. Cafodd y pum cam cyflym ymlaen a ddisgrifir yn y ddogfen hon eu blaenoriaethu gan randdeiliaid a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect.

## Elfennau o ‘gam cyflym ymlaen’

- Rhaid bod yn weladwy
- Cul o ran cwmpas
- Hawdd i’w weithredu
- Rhad
- Yn fuddiol ar unwaith
- Gellir ei gwblhau mewn 90 diwrnod

# 01

# Safonau cyffredin ar gyfer data gofal cymdeithasol





# Cefndir

Yn ystod cam darganfod y prosiect, cytunodd pobl bod disgrifio'n gyson y data rydym yn ei gasglu yn hanfodol i ddatblygu dealltwriaeth ledled y system o ofal cymdeithasol, a fydd yn ei dro yn galluogi arloesedd a gwella gwasanaethau.

Fodd bynnag, fe wnaethom ganfod heriau o ran safoni data, fel:

- **mae maint gofal cymdeithasol yn golygu bod diffinio safonau sy'n gweithio i bawb yn anodd**
- **cytuno ar ddiffiniadau ac amharodrwydd i fabwysiadu safon.**
- **gwahaniaethau yn y ffordd y caiff gofal cymdeithasol ei gyflwyno**
- **canfyddiad bod data ond yn cael ei gasglu i 'fesur perfformiad', sy'n atgyfnerthu agwedd ddrwgdybus at bwrpas casglu.**
- **diffyg gwerthfawrogiad o ddata fel ased ar gyfer gwella.**

Mae'r cam cyflym ymlaen hwn yn cydgrynhoi dysgu o dair astudiaeth achos yng Nghymru, yr oedd angen i bob un ohonynt ystyried data a sut cafodd data ei ddisgrifio a'i safoni fel rhan o'u gwaith. O ganlyniad i'r gwaith hwn, lluniwyd rhestr wirio y dylai sefydliadau ei hystyried wrth gyflawni gwaith tebyg.

Mae'r rhestr wirio wedi cael ei llunio i gyflymu buddsoddiad mewn safonau ac ansawdd data ac, wrth wneud hyn, datblygu amlygu safonau data a rennir ledled gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae safoni data yn heriol, ond nid yw'n anorchfygol, gyda'r offer cywir. I ddechrau arni, mae angen newid diwylliant, gan symud tuag at ddiddordeb gwirioneddol mewn mewnwelediad trwy ddata, gyda chefnogaeth y dechnoleg, y sgiliau a'r arweinyddiaeth gywir.

# Y prosiectau sy'n rhan o'r cam cyflym ymlaen hwn

## Cyngor Sir Powys

Derbyniodd Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys adroddiad beirniadol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn 2017.

Ar ôl gwella eu ffyrdd  o adrodd ar ddata a'u gallu o ran data, amlygodd Gwerthusiad Perfformiad diweddarach ym mis Hydref 2020 welliannau sylweddol, a bod data wedi chwarae rôl yn hyn.

Powys

## WCCIS

Crëwyd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) i fod yn gofnod electronig a rennir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a ddatblygwyd gan CareWorks.

Mae wedi cael ei weithredu mewn 15 awdurdod lleol hyd yn hyn, ac mae wedi cael ei ddylunio i roi'r offer digidol i nyrsys cymunedol, timau iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion, sydd eu hangen arnynt i weithio gyda'i gilydd yn well.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Digital Health and Care Wales

## Cyllid Cymdeithasol

Gwaith Social Finance gyda phartneriaid awdurdodau lleol (Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen) i leihau pwysau ar y 'drws blaen' a gwella profiadau defnyddwyr wrth gyrchu gofal cymdeithasol i oedolion, gan ddangos sut y gall dulliau ystwyth, dyluniad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a thrawsnewid digidol wella gwasanaethau.

SOCIAL FINANCE

# Beth a ddysgom

Bydd ffocws ar safonau ar gyfer rhannu data yn rhan bwysig o Strategaeth Data Gofal Cymdeithasol i Gymru. Fel sector, byddwn yn partneru ac yn alinio'n gynyddol ar yr un safonau i gysylltu ein systemau (safonau rhyngweithredol) a deall ein data yn yr un modd pan fyddwn ni'n ei gyfnewid (safonau data).

Mae safonau data a safonau rhyngweithredol yn heriau strategol ac mae angen trafod a chyd-ddylunio ar draws y partneriaid sy'n rhannu. Oherwydd hyn, nid ydynt yn 'gyflym' yn ôl eu diffiniad.

Fodd bynnag, i helpu rhannu'n gyflym set o safonau a gweithgareddau i lywio rhannu data gofal cymdeithasol yn fwy effeithiol, mae'r cam cyflym ymlaen hwn wedi casglu set o weithgareddau arfer gorau / safonol a ffactorau hylendid, a lywiwyd gan y tair astudiaeth achos a amlinellwyd uchod. Mae rhestr wirio o'r arferion safonol hynny yn dilyn y dudalen hon.



# Rhestr wirio ar gyfer safonau data cyffredin (1)

| | Safon | Trosolwg | Beth mae hyn yn ei olygu? |
|---|---|---|---|
| **1** | Mae safonau data yn helpu hybu ansawdd a chysondeb mewnwelediad y mae pawb yn eu dymuno | Mae defnyddio safonau data yn golygu y gall data gael ei ailddefnyddio ar draws systemau. Mae'n hanfodol bod cytundeb a dealltwriaeth a rennir o ran safonau data er mwyn mesur perfformiad yn hytrach na disgrifiad technegol llawn o'r data. | Mae'n bosibl gweld sut gall data gynhyrchu dealltwriaeth well o sut mae'n cefnogi'r system, a'i botensial i hybu arloesedd. |
| **2** | Mae safonau ar gyfer y gallu i ryngweithredu yn helpu i sicrhau y gallwn rannu'n gynt, yn fwy diogel ac yn fwy cyson nag y gallwn heddiw. | Mae gallu i ryngweithredu yn bosibl trwy safonau data sy'n caniatáu i systemau TG unigol rannu data, hyd yn oed pan mae gwerthwyr gwahanol wedi creu'r systemau o gwmpas seilweithiau gwahanol. Mae'n awtomeiddio systemau technoleg gwybodaeth a chymwyseddau meddalwedd i gyfathrebu a chyfnewid data'n gywir, yn effeithiol ac yn gyson, a defnyddio'r wybodaeth a gyfnewidiwyd i gynhyrchu mewnwelediadau y gellir eu cael trwy gyfuno'r data'n unig. | Gellir cyfuno'r setiau data ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i gynyddu cywirdeb y data, lleihau'r angen i ddyblygu casgliadau data a hybu profiadau a chanlyniadau gwasanaeth gwell i ddinasyddion a'r gweithlu. |
| **3** | Cydnabod y bydd mwy o ddefnydd o ddata yn golygu llawer o waith y tu ôl i'r llen. | Y tu ôl i set o adroddiadau wedi'u huwchraddio mae llawer o gymhlethdodau, sy'n cymryd blynyddoedd o waith. Ond mae ceisio mabwysiadu'r newidiadau ar lefel weladwy (er enghraifft adroddiadau newydd) heb yr ymdrech y tu ôl i'r llen – y bobl, y prosesau, y dechnoleg, y diwylliant a'r ymagwedd ddatblygu – fel cael car heb injan. Gall rhai pethau fel meithrin yr amgylchedd, uwchsgilio datblygwyr, newid sut mae'r sefydliad yn gweld a defnyddio data, gymryd nifer o flynyddoedd. Dylai sefydliadau fod yn barod i ddechrau ar y daith tymor hir hon. | I ddefnyddio data'n fwy effeithiol, mae arnom angen rhaglen waith a buddsoddi. Rhaid trin data fel ased, sydd yr un mor bwysig ag asedau eraill, fel pobl neu ystadau. |
| **4** | Creu diwylliant cadarnhaol o ran defnyddio data, gan ddechrau ar y brig. | Dechreuwch trwy fewnosod mewnwelediad a hybir gan ddata wrth wneud penderfyniadau gan arweinwyr a gosod y disgwyliad newydd ar gyfer pwysigrwydd data yn y sefydliad. Parhewch trwy ganolbwyntio ar yr haen o uwch reolwyr islaw'r arweinwyr, yna gweddill y sefydliad. Pan fydd pobl yn gweld beth sy'n bosibl, bydd y 'naratif data' yn dod yn hunangynhaliol a bydd diwylliant sy'n canolbwyntio ar ddata yn tyfu. | Creu grŵp arweinyddiaeth haen ganol i noddi data yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i hybu newid data mewn awdurdod lleol. Gall eu grymuso i helpu gosod yr agenda a'i chyflwyno wneud gwahaniaeth. |

# Rhestr wirio ar gyfer safonau data cyffredin (2)

| | Safon | Trosolwg | Beth mae hyn yn ei olygu? |
|---|---|---|---|
| **5** | Uwchsgilio'r gweithlu ac annog ymagwedd hunanwasanaethu. | Dylai unigolion ryngweithio gyda data'n uniongyrchol, i wella gwerthfawrogiad o botensial data a thynnu camau o brosesau rheoli data. Ym Mhowys, roedd gweithredu Power BI yn hanfodol i gyflawni hyn, trwy fod yn ddeinamig, yn ymgysylltiol, a hygyrch i bobl nad ydynt yn arbenigwyr. | Offer deallusrwydd busnes (BI) sy'n hawdd i'w defnyddio a buddsoddi mewn addysgu sgiliau delweddu data a BI sylfaenol i weithwyr. Dyma sut i gyflawni effaith a phryniannau. |
| **6** | Bod yn feiddgar wrth hyrwyddo technolegau newydd i gefnogi'r uchelgais am ddata. | Er enghraifft, mewn un sefydliad, gwelsom fod buddsoddiad yn yr offer BI cywir wedi golygu y gallai'r timau data rannu adroddiadau a oedd yn cynnwys gwybodaeth sensitif i staff a sefydliadau eraill ond gan gynnal diogelwch. Dylai arweinwyr flaenoriaethu mabwysiadu'r technolegau newydd hyn a rhoi pwys mwy iddyn nhw ymhlith blaenoriaethau eu sefydliad. | Yn ogystal ag offer BI, archwiliwch atebion trawsnewid, storio data a thechnolegau Cwmwl, I ddarparu mynediad cyflymach, mwy democrataidd at fewnwelediad o ansawdd a chanlyniadau gwell. |
| **7** | Gwybod pa ddata sydd o bwys. | Ni ellir dal, ymchwilio a dadansoddi popeth. Mae'n hanfodol cyfuno setiau data gyda set deilwredig o ddangosyddion 'uchafbwynt'. Pa bwyntiau data sydd o bwys er mwyn deall perfformiad? | Mae rhai setiau data yn fwy gwerthfawr na rhai eraill, felly mae gwybod pa rai sy'n darparu cyfleoedd gwell neu sy'n helpu lleihau risg yn caniatáu i chi flaenoriaethu beth i ganolbwyntio arno yn gyntaf. |
| **8** | Cyfuno data gyda gwybodaeth arall i wneud y mwyaf ohono, | Mae gan arbenigwyr yn y gwasanaeth wybodaeth a dealltwriaeth sy'n llywio'r data. Rhaid i sefydliadau ofyn pam ac ymchwilio i'r achosion sylfaenol. Rhaid bod gan staff yr offer i gyrchu a dadansoddi data, a'i gyfuno â'u profiad a'u mewnwelediadau gweithredol. | Mae penaethiaid gwasanaeth a staff gweithredol wrth wraidd diffinio a chyflawni canlyniadau. Maent yn darparu'r cyd-destun ar gyfer sut gall data helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny. Mae angen iddyn nhw fod yn gysylltiedig ochr yn ochr â thechnolegau eraill. |
| **9** | Mabwysiadu ymagwedd trawsnewid ystwyth, er mwyn defnyddio adnoddau a chynhyrchion o ansawdd uwch yn well. | Mae nodweddion ymagwedd ystwyth yn cynnwys: ôl-groniad; cylchoedd o sbrintiau bach; adegau cyffwrdd dyddiol ar gyfer timau; pwyslais ar gamau cyflym ymlaen fel camau cynyddol at nodau mwy. Mae mabwysiadu ymagwedd ystwyth yn gofyn am y diwylliant a'r ymagwedd arwain gywir, e.e. rhanddeiliaid yn barod i flaenoriaethu rhai nodweddion newydd dros eraill yn y tymor agos. | Mae ymagwedd ystwyth, fwy iteraidd at gyflwyno yn caniatáu i chi brofi ymagweddau newydd a gweld canlyniadau'n gynt. Ond mae ymagwedd ystwyth hefyd yn newid diwylliannol sylweddol, nid newid mewn methodoleg yn unig. Mae ymarfer a hyfforddi'n hanfodol. |

# Rhestr wirio ar gyfer safonau data cyffredin (3)

| | Safon | Trosolwg | Beth mae hyn yn ei olygu? |
|---|---|---|---|
| **10** | Sicrhau bod gan dimau data ofynion clir gan y cwsmeriaid. | Mae'n orfodol bod y gofynion hyn yn cael eu cymeradwyo gan y cwsmeriaid cyn i ddatblygu ddechrau. | Perchnogion cynnyrch clir yw'r rheiny sy'n sicrhau bod beth sydd ei angen arnoch yn cael ei gyflwyno. I fod yn effeithiol, mae angen iddynt gael eu dethol o blith eich staff mwyaf profiadol a'u cefnogi i wneud penderfyniadau ynghylch beth sy'n cael ei adeiladu. Nid rôl ran-amser yw hon. |
| **11** | Bod wrthi'n mireinio bob amser a dysgu sut i wneud pethau'n wahanol. | Peidiwch byth â disgwyl cyrraedd man terfynol e.e. gellir ailedrych ar adroddiadau blynyddoedd blaenorol wrth i'r sefydliad aeddfedu o ran ei alluoedd a'i anghenion. Yn y modd hwn, mae profiad y defnyddiwr a'r cynnyrch yn cael eu gwella'n gyson. | Mae'n well mireinio a dysgu trwy adeiladu ar lwyddiant. Bydd rhai pethau na fydd yn mynd yn dda y bydd angen eu cywiro, ond yn bwysicach, pethau sy'n llwyddo y gellir eu gwneud yn well; gall hyn helpu  hybu momentwm. |
| **12** | Lle bo'n bosibl, ystyried beth mae cynghorau a sefydliadau eraill wedi'i wneud, a mabwysiadu arfer gorau. | Cysylltwch a siaradwch â nhw os oes angen. Mae'n bwysig nid yn unig i ganolbwyntio ar Gymru, ond i edrych ymhellach i ffwrdd am bocedi o arfer da. | Gall manteisio ar arfer gorau o fannau eraill roi'r hyder i fuddsoddi mewn meysydd newydd. |
| **13** | Wrth ddylunio ac ailddylunio data, amlygu a deall y broses fusnes sylfaenol. | Deall y broses gyfredol a "beth fydd". Sicrhau cytundeb, yn enwedig gydag arweinwyr gweithredol, ynghylch beth yw'r rhain. Dylai'r ymagwedd at ddata gael ei dylunio i gyd-fynd â beth sydd ei angen.<br><br>Blaenoriaethu effeithlonrwydd data ac arfer gorau yn y dyluniad terfynol. Yn arbennig, rhaid bod gan unrhyw ddata ddiben, yn hytrach na chael ei gasglu er lles hynny'n unig. Dylai data gael ei greu unwaith, ond ei ddefnyddio sawl gwaith. | Mae eich defnydd o ddata yn galluogi eich canlyniadau trwy set o brosesau cefnogol. Os byddwch yn dechrau gan ystyried hynny, gallwch ganolbwyntio ar ddod â'r mathau cywir o ddata at ei gilydd i gefnogi'r canlyniadau hynny. Wrth i chi drefnu bod data ar gael, ystyriwch ei wneud yn ddefnyddiadwy i fentrau eraill, i osgoi ail-wneud. Dylid trefnu ei bod ar gael yn amodol ar gymeradwyaeth briodol o ran llywodraethu gwybodaeth a'r rhaglen. |

# Rhestr wirio ar gyfer safonau data cyffredin (4)

| | Safon | Trosolwg | Beth mae hyn yn ei olygu? |
|---|---|---|---|
| **14** | Mae sefydlu llywodraethu da a chynhwysol yn anodd ond yn werth chweil ar gyfer rhaglenni data a thechnoleg | Gall cwestiynau sy'n ymwneud â data fod yn hynod dechnegol ac weithiau'n ddadleuol. Os na ellir sicrhau consensws, dylai fod llwybr datblygu clir i fforwm a all ddatrys y problemau. Dylai arweinwyr brwdfrydig sy'n deall y weledigaeth gymryd ac ysgogi penderfyniad terfynol. | Mae'n hanfodol cael y corff llywodraethu cywir i wneud penderfyniadau am ddata gofal cymdeithasol a'i ddefnyddio. Mae'r cyfranogiad cywir gan randdeiliaid yn hanfodol ac mae angen iddo gynnwys cynrychiolaeth dechnegol, penaethiaid gwasanaeth, cyfreithiol a rheoleiddiol i wneud penderfyniadau. Mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd rhwng creu fforwm cwbl newydd ac ailddefnyddio cyrff llywodraethu presennol sydd â'r rhan fwyaf o'r gynrychiolaeth gywir i ymgymryd â chyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau cydweithredol ynghylch defnyddio data gofal cymdeithasol. Dylai fod gan y corff fandad i weithredu, y cytunwyd arno gan bartneriaid o bob rhan o ofal cymdeithasol. |
| **15** | Mae cynnwys pobl Cymru a'r rheiny sydd wedi byw â phrofiad yn hanfodol | Mae darparu darlun cytbwys a chynrychioliadol o bobl Cymru, gan gynnwys y rheiny sydd â phrofiad personol o sut y gellir ac y dylid defnyddio data i'w cefnogi a'u canlyniadau, yn hanfodol ar gyfer unrhyw gydweithio effeithiol ar gyfer rhannu data.<br>Mae Deddfwriaeth Preifatrwydd Data Genedlaethol a chyrff cynghori wedi canolbwyntio fwyfwy ar ymgysylltu â dinasyddion a chyd-ddylunio ynghylch sut i ddefnyddio eu data eu hunain i baratoi a chyflymu mentrau rhannu data estynedig neu newydd. | Mae buddsoddi mewn gallu hirdymor i ymgysylltu a chasglu barn ac agweddau trigolion Cymru, yn enwedig y rheiny sydd â phrofiad personol o ddefnyddio eu data i hybu canlyniadau gofal o sefyllfa sydd o werth iddynt yn gynyddol bwysig.<br>Mae angen y safbwynt tystiolaethol hwn i helpu llywio'r sgwrs yng Nghymru ynglŷn â defnyddio data gofal cymdeithasol yn fwy effeithiol i wella canlyniadau a phrofiadau pobl Cymru. |
| **16** | Bydd angen creu'r cymorth Moeseg a Llywodraethu Gwybodaeth (IG) cywir | Mae gallu Llywodraethu Gwybodaeth a Moeseg sy'n seiliedig ar ddatrys problemau yn hanfodol i bennu a oes llwybrau rhannu gwybodaeth yn bodoli ac i helpu cwblhau'r gwaith sydd ei angen i'w dilyn. Gall y math hwn o swyddogaeth, ynghyd ag ethos hyfforddi, wneud llawer i adeiladu atebion rhannu data cyfrannol yn gyflym, gan sicrhau hefyd fod rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol yn cael eu hystyried yn gynnar. | Dylech ystyried creu corff adolygu a gwneud penderfyniadau llywodraethu gwybodaeth ar gyfer gofal cymdeithasol y gellir gofyn iddo ddod o hyd i lwybrau rhannu gwybodaeth, os ydynt yn bodoli, ar gyfer cyfleoedd strategol ar gyfer rhannu data strategol a chynghori ynghylch pryd na ddylid cynnal mentrau. |



# Y camau nesaf

- Gweithio gyda chydweithwyr mewn awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, AGC ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sefydlu cwmpas a ffiniau i ddatblygu safonau data cyffredin ym maes iechyd a gofal.
- Defnyddio rhaglenni gwaith presennol, fel y rhaglen adnodd data cenedlaethol, i hyrwyddo safoni data ym maes gofal cymdeithasol.
- Amlygu prosiectau bach, y gellir eu cyflawni, i ddechrau'r gwaith hwn a chreu'r momentwm angenrheidiol ar gyfer uchelgeisiau tymor hwy.
- Asesu a ellir cynyddu arfer da presennol ledled Cymru.

# 02

## Datblygu rolau a chymwyseddau ar gyfer dadansoddwyr gofal cymdeithasol





# Cefndir

Mae tystiolaeth o ofal cymdeithasol ledled Cymru yn dangos diffyg unffurfiaeth mewn sgiliau a gallu dadansoddol. Mae awdurdodau lleol yn rheoli eu gallu data a'u dadansoddeg yn wahanol iawn a nododd rhai awdurdodau lleol heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw pobl mewn rolau data a dadansoddeg.

Archwiliodd y cam cyflym ymlaen hwn y defnydd o ffynonellau data newydd i ddeall y farchnad ar gyfer gallu dadansoddol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Casglom wybodaeth am y sgiliau dadansoddol ym maes gofal cymdeithasol. Aethom ati i gyfuno hyn â gwybodaeth am rolau dadansoddol ym maes iechyd a gofal ledled y DU i ddatblygu ein dealltwriaeth o rolau dadansoddol ym maes iechyd a gofal yng Nghymru.

Bydd y gwaith hwn yn helpu o ran deall y gofynion presennol a rhai'r dyfodol ar gyfer sgiliau perthnasol i wasanaethau dadansoddol ym maes gofal cymdeithasol. Bydd yn sail i amcanion y Datganiad Strategol o Fwriad, gan ddarparu hefyd dystiolaeth ychwanegol o'r farchnad i ddarparu cysondeb ac eglurder ar gyfer recriwtio a datblygu galluoedd dadansoddol.

## Beth yw canlyniadau dymunol y cam cyflym ymlaen hwn?

- **Profi gwerth ffynonellau data newydd i ategu ein dealltwriaeth o ofal cymdeithasol**
- **Sefydlu sylfaen o sgiliau ar gyfer rolau dadansoddol ar draws gofal**

# Dull

1

2

3

Dadansoddiad data mawr gan ddefnyddio miliynau o CVau a hysbysebion am swyddi i ddeall pa rolau a sgiliau sydd o bwys i'r maes gofal cymdeithasol presennol ac yn y dyfodol


Mapio i'r Safonau Galwedigaethol presennol. Caiff y data hyn eu mapio i safonau galwedigaethol cenedlaethol a rhyngwladol (gweler Tudalen 17) yn y sector gofal a meysydd cysylltiedig

Dilysu Matrics Gallu

Geek Talent

# Sganio'r farchnad

- Dadansoddwyr perfformiad
- Economeg iechyd
- Gwybodeg
- Dadansoddeg iechyd
- Dadansoddi polisi
- Ystradegydd
- Gwyddonwyr data
- Peirianwyr data




Ystyriodd ein dull sganio'r farchnad rolau arbenigwyr data mewn sefydliadau perthnasol ynghyd â swyddi fel polisi, economeg a rolau dadansoddol eraill.

Fe wnaeth sganio’r farchnad hefyd ystyried sefydliadau cysylltiedig sy'n recriwtioar gyfer rolau tebyg, fel rheoleiddwyr. Rydym wedi adolygu galw’r farchnad lafur o CVau a hysbysebion am swyddi yng Nghymru a gweddill y DU gan gymharu rolau iechyd, gofal cymdeithasol a dadansoddeg ehangach.

# Paru sgiliau

Mae'n bwysig amlygu’r amrywiaeth o sgiliau a lefelau sydd eu hangen i gefnogi'r gallu dadansoddol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gall y fframwaith sgiliau hwn gael ei lywio gan fframweithiau presennol a'i alinio â'r sgiliau presennol o fewn y sector. Yna gellir cynhyrchu swydd-ddisgrifiadau o'r fframweithiau hyn mewn modd clir, cydlynol a chyson.

Mae'r fframweithiau hyn yn cynnwys:

**DDaT**

- Fframwaith Ddigidol, Data a Thechnoleg – wedi’i ddatblygu o'r Fframwaith Sgiliau ar gyfer yr Oes Wybodaeth (SFIA) a’i fabwysiadu gan y Gwasanaeth Sifil a sefydliadau eraill.

**SFIA**

- Fframwaith sgiliau a chymhwysedd byd-eang ar gyfer byd digidol. Mae'r BCS (Y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG) wedi datblygu *SFIAplus* priodol gydag adnoddau datblygu a hyfforddiant ychwanegol.

**APHA**

- Cymuned o ddadansoddwyr sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd.

**FEDIP**

- Ffederasiwn o weithwyr gwybodeg proffesiynol yn yr UDA.

**AHIMA**

- Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth Iechyd America – fframwaith gallu cryf a map gyrfaol yn yr UDA.

**Proffiliau swyddi’r GIG**

- Fframwaith cyfredol ar gyfer manylebau swyddi dadansoddeg a gwybodaeth ar gyfer staff y GIG.

# Beth ddysgon ni (1)

- Prin yw'r recriwtio sy'n benodol i ddata gofal cymdeithasol o gymharu â recriwtio i wasanaethau iechyd a a dadansoddi data yn ehangach. Gallai canolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol gefnogi arloesedd a darparu gwerth gwirioneddol mewn maes sy’n gymharol annatblygedig.
- Mae gan ofal iechyd broffiliau swyddi ffurfiol wedi'u diffinio ac ar gael ar [http://nhsemployers.org/](http://nhsemployers.org/). Yn wahanol i ofal cymdeithasol, ymddengys bod hysbysebion swyddi yng Nghymru yn dilyn manylebau swyddi safonol ac yn defnyddio'r bandiau cyflog perthnasol.
- Amlygodd y dadansoddiad naw clwstwr rôl gyda 15 gallu i lywio a safoni rolau dadansoddol ym maes gofal cymdeithasol (mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad llawn).
- Cyfran y rolau dadansoddeg ym maes iechyd a gofal yn Lloegr a'r Alban yw dau i dri y cant, o'i gymharu â 10 y cant o rolau dadansoddeg yng Nghymru. Mae hyn yn gyfle i annog myfyrwyr mewn prifysgolion i ystyried dadansoddeg iechyd a gofal fel proffesiwn, yn hytrach na llwybrau gyrfa TG traddodiadol.
- Roedd y rolau dadansoddol ym maes gofal cymdeithasol yn aml yn rolau gweinyddol yn edrych ar 'reoli perfformiad' ac adroddiadau statudol yn hytrach na gwyddor data neu rolau sy'n dibynnu ar unigolion medrus iawn ag addysg mewn pynciau STEM ar lefel gradd ac uwch. Roedd rolau'n llawer mwy amrywiol ym maes iechyd nag ym maes gofal cymdeithasol.
- Roedd rolau ym maes gofal cymdeithasol hefyd yn llawer mwy tebygol o gynnwys ystod o gyfrifoldebau a fyddai'n ffurfio rôl benodol mewn mannau eraill e.e. rheoli prosiectau, cymorth busnes, dadansoddi busnes neu ddatblygu systemau.
- Mae llai o gyfleoedd ar gyfer ddadansoddwyr a rolau dadansoddol ym maes gofal cymdeithasol o'i gymharu ag iechyd. Amlygodd y dadansoddiad rolau iechyd mewn perthynas â dadansoddeg, ond roedd rolau gofal cymdeithasol yn llawer mwy prin.
- Ni chawsom hyd i hysbysebion am y rolau mwyaf technegol ym maes gofal cymdeithasol (Pensaer Data, Peiriannydd Data, Gwyddonydd Data). Gallai hyn fod oherwydd bod yr arbenigedd hwn yn cael ei rannu rhwng adrannau neu ei ddarparu drwy ymgynghorwyr.

# Beth ddysgon ni (2)

- Mae rolau gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar rolau dadansoddwyr perfformiad a gwybodaeth reoli, gan gynnwys cydymffurfio ac ansawdd data wedi'u canoli mewn prif swyddfeydd (weithiau y tu allan i Gymru ar gyfer darparwyr gofal preifat neu’r rhai a ddarperir drwy wasanaethau a rennir o fewn awdurdod lleol).
- Roedd gan swydd-ddisgrifiadau gofal iechyd fwy o bwyslais ar raglennu, ymchwil, polisïau a llywodraethu ond llai o bwyslais ar fodelu data, busnes a dadansoddeg uwch a delweddu.
- Yn aml, mae gan ymgeiswyr am swyddi ffocws technegol neu reoli, ond yn aml mae hysbysebion swyddi yn gofyn am y ddwy set o sgiliau ar lefel uchel a fydd yn atal llawer o ymgeiswyr neu'n codi disgwyliadau cyflog. Rhoddir llai o bwyslais ar sgiliau technegol ac ymddengys bod y rhai ar gyfer cynghorau yn rhai lefel isel fel Word, Excel, Mynediad, SQL, Business Objects.
- Mae rhai swydd-ddisgrifiadau'n gofyn am brofiad o offer neu systemau penodol yn hytrach na chymwyseddau mwy cyffredinol ac ychydig o gyfeiriad oedd at offer galluogi modern fel hunanwasanaethu, dangosfyrddau neu rybuddion amser real.
- Roedd dadansoddiad o'r data (gan gynnwys y swydd-ddisgrifiadau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru) hefyd yn cynhyrchu meysydd eraill o fewnwelediad i rolau gofal cymdeithasol a recriwtio:
  - Cyflogau ar gyfer Dadansoddwyr Data/Gwybodaeth/Perfformiad lefel mynediad yw £24,907
  - Mae hysbysebion swyddi yn aml yn hir (12 neu fwy tudalen ar gyfer Iechyd) ac yn ailadroddus
  - Rhestrir cyflawniadau a chyfrifoldebau ond ni chânt eu blaenoriaethu felly nid yw'n glir pa rai yw'r prif dasgau
  - Mae'n ymddangos bod cyflawniadau a chyfrifoldebau yn aml yn adrannol ac nid yn benodol i rôl
  - Defnyddir jargon yn gyffredin, gan gynnwys acronymau a therminoleg heb esboniad

# Y camau nesaf

- Asesu fframweithiau datblygiad proffesiynol presennol ar gyfer eu haddasrwydd i'w defnyddio ym maes gofal cymdeithasol.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i asesu eu capasiti a'u gallu presennol o ran sgiliau data a dadansoddi a'u defnydd o ddata i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.
- Gweithio gyda phartneriaid yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Llywodraeth Cymru, prifysgolion a sefydliadau eraill i ddatblygu fframwaith datblygu sgiliau ar gyfer data a dadansoddi ym maes iechyd a gofal. Dylai'r fframwaith gynnwys sgiliau llythrennedd data sylfaenol ar gyfer y gweithlu cyfan yn ogystal â ffurfio fframwaith datblygu sgiliau ar gyfer dadansoddi data, defnyddio data mewn ymchwil, hyd at sgiliau lefel uchel mewn gwyddor data, dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial.
- Ystyried datblygu rhaglen ardystio sgiliau ar gyfer dadansoddwyr data a gwyddonwyr data ym maes iechyd a gofal.
- Datblygu llwybrau dysgu arloesol ar gyfer yr unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n ceisio gwella eu sgiliau mewn dadansoddi data a gwyddor data.
- Archwilio mecanweithiau newydd sy'n caniatáu i awdurdodau lleol a darparwyr wella eu sgiliau data, gan ddefnyddio adnoddau fel ONS Data Science Campus, prentisiaethau a nawdd ôl-raddedig.
- Creu gofynion sgiliau cyffredin sy'n gludadwy ar draws sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.
- Ystyried creu swydd-ddisgrifiadau safonol ar gyfer rolau data a dadansoddi y gall awdurdodau lleol a sefydliadau eraill eu defnyddio fel sail i recriwtio a datblygu eu dadansoddwyr eu hunain.
- Gweithio gyda cholegau a phrifysgolion i ddatblygu lleoliadau, cynlluniau nawdd a chyfleoedd ar gyfer cynlluniau graddedigion ac ôl-raddedigion a all fodloni anghenion gwella a datblygu gofal cymdeithasol drwy ddefnyddio data a dadansoddi.
- Gweithio i ddatblygu ymhellach y gwaith o gasglu a defnyddio data gofal cymdeithasol o ansawdd uchel mewn ymchwil a datblygu tystiolaeth, yn enwedig yng nghyd-destun Cymru.

# 03

## Ymgysylltu â dinasyddion ac ymarferwyr





# Cefndir

Nod y cam cyflym ymlaen hwn oedd datblygu egwyddorion ar gyfer cyd-ddylunio ac ymgysylltu â'r cyhoedd a phobl sydd â phrofiad presonol drwy gydol y rhaglen strategaeth ddata. Fe'i cyflwynwyd trwy:

- **gynnal ymchwil wrth y ddesg i ddeall pa fathau o ymgysylltu sy'n digwydd yng Nghymru a'r DU ym maes gofal a beth sydd wedi gweithio**
- **ymchwil wrth y ddesg i ddarparu dealltwriaeth o beth mae'r sector eisoes yn ei wybod am ddata drwy ymgysylltu (er enghraifft, Mesur y Mynydd) a darganfod ble mae'r bylchau**
- **ddatblygu egwyddorion cynnwys a chynllunio dull o ymgysylltu â dinasyddion ac ymarferwyr yn y strategaeth ddata (er enghraifft, cael grŵp her dinasyddion).**

## Pam mae hyn yn bwysig?

Credwn y bydd y rhaglen yn cael mwy o effaith os caiff ei hybu a’i chyd-ddylunio gan bobl sydd â phrofiad personol, eu gofalwyr a gweithwyr gofal. Mae'r Datganiad o Fwriad Strategol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn amlygu’r pwysigrwydd i Gymru ddangos beth y gall cenedl sy'n gyfoethog o ran data ei gyflawni ar gyfer ei dinasyddion. Mae hefyd yn sefydlu'r uchelgais ar gyfer cydweithio a chyd-ddylunio a'r angen i ymgysylltu'n effeithiol â phobl Cymru i gyflawni hyn.

# Dulliau

Yn ein gweithdy cyntaf, gwnaethom rannu a thrafod straeon defnyddwyr a gasglwyd o gam un gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector gofal. Ein nod oedd:

- **casglu barn ar sut mae pobl sy'n derbyn gofal a darparu gofal yn meddwl am ddata**
- **nodi eu prif heriau**
- **trafod cyfleoedd ar gyfer sut y gallem eu cefnogi'n well drwy rannu data'n well.**

Roeddem hefyd eisiau darganfod pwy y dylem siarad â nhw, a'r ffordd orau o'u cynnwys o ran data. Roedd y mewnwelediad o'r gweithdy cychwynnol hwn yn hynod ddefnyddiol, er nad oedd yn bosibl cynnwys pobl â phrofiad personol oherwydd argaeledd ac amserlenni.

Rhannodd pobl feddyliau a straeon fel a ganlyn:

Nid yw pobl go iawn yn meddwl bod ganddyn nhw 'ddata'. Mae ganddyn nhw straeon. Straeon am eu bywydau, straeon amdanynt eu hunain ac eraill. Mae angen inni ddod o hyd i ffordd o gofnodi'r straeon rheini i helpu eu cefnogi.

Mae angen i ni allu bod yn berchen ar ein cynlluniau gofal. Mae pobl angen cymryd rhan mewn datblygu a siapio eu cynlluniau gofal a chymorth.

Mae arnom ddyled i'r plant agored i niwed yr ydym yn cefnogi i ddal eu straeon a'u rheoli mewn ffordd sy'n ddefnyddiol ac yn ystyrlon iddyn nhw. Hyd nes y gallwn roi'r stori honno drosodd, ein gwaith ni yw sicrhau bod y data'n cael ei ddefnyddio'n dda.

Mae pawb sy'n ymwneud â pherson sy'n derbyn gofal yn cyfrannu at gofal a chymorth i'r person hwnnw.Nid y prif weithiwr proffesiynol yw ceidwad y data o reidrwydd. Mae darparwyr gofal yn aml yn tanbrisio cyfraniad y data mae ganddynt fynediad iddo.

# Heriau

**Sut gall rhannu data helpu pobl sy'n defnyddio ac yn darparu gofal a chymorth?**

**Rhaid i ran hanfodol y daith gofal ymwneud â sicrhau bod y person wrth wraidd yr holl benderfyniadau rhannu data sy'n cael eu gwneud.**

**Mae'n hanfodol bod gan bobl ddealltwriaeth glir o sut y defnyddir eu data. Dylent allu rheoli a chyd-gynhyrchu eu straeon ac yn y pen draw eu taith gofal personol. Mae hyn yn allweddol wrth adeiladu system gofal well a mwy cefnogol.**

**Rydym wedi nodi isod sut y gall data gwell ateb pedair o'r prif heriau.**

| | |
|---|---|
| *Mae ailadrodd hanes unigolyn dro ar ôl tro i ddarparwyr gofal newydd o fewn y system bresennol yn rhwystredig, yn cymryd llawer o amser ac yn achosi straen.* | Mae rhannu data'n well ar draws yr holl ddarparwyr gofal yn galluogi pobl sy'n derbyn gofal i gael cyfnod pontio mwy 'di-dor' pan fydd gofal yn newid. Bydd y gallu i rannu gofynion gofal hanesyddol yn rhwydd, cysylltiadau teuluol allweddol, hoff a chas bethau yn arbed amser ac yn helpu gofalwyr a gweithwyr gofal newydd i ddarparu gofal a chymorth mwy teilwredig a chydymdeimladol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad yw pawb eisiau rhannu eu holl ddata. |
| *Nid yw pobl sydd â phrofiad personol a'r rheiny sy'n eu cefnogi bob amser yn cael y cymorth cywir pan fydd newid bywyd yn digwydd... "pan adawodd y person rwy'n gofalu amdano yr ysbyty, cefais fag mawr o bils! Dim cyfarwyddiadau ac roedd rhaid i fi ddarganfod beth i'w wneud fy hun".* | Yn sgil rhannu data'n well rhwng iechyd a gofal, bydd yn haws cael golwg gyfannol o'r claf. Bydd gofalwyr a gweithwyr gofal yn gallu deall gofynion gofal newydd/dros dro eu cleifion yn well ac addasu eu gwasanaethau i'w cefnogi, gan felly eu helpu i gadw'n holliach. |
| *Yn aml, mae cynlluniau gofal yn gyffredinol heb eu personoli lawer nac yn agored i'w dilysu gan dderbynnydd y gofal hwnnw, "mae angen iddynt fod yn ymatebol ac yn ddigymell", weithiau nid yw gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn "anffurfiol" yn cael ei chynnwys ar gofnod gofal ond "mae'n rhan bwysig o stori rhywun".* | Bydd dealltwriaeth gyffredin o'r mathau o ddata sy'n cael eu cofnodi a'u rhannu gyda phobl sy'n defnyddio neu'n darparu gofal a chymorth yn caniatáu dull mwy hyblyg o ddarparu gwasanaethau, drwy ddealltwriaeth well o amrywioldeb anghenion yr unigolyn. Mae'n bwysig deall manteision a defnydd y data. |
| *Mae plant a theuluoedd yn aml yn pryderu am sut mae eu straeon yn cael eu curadu. Clywn nad yw'r data a gedwir yn eu llais nhw, ac nid oes ganddynt reolaeth drosto.* | Bydd rhannu data'n well gyda phobl a'u teuluoedd (lle y bo'n briodol) yn galluogi pobl i gael mwy o lais ar sut maent yn rhyngweithio â gofal a chymorth, gan eu galluogi i lunio eu straeon "data" eu hunain a bod yn berchen ar y straeon hynny drwy roi mwy o weledydd iddynt o'u taith gofal. Bydd safonau clir ar gyfer sut y caiff data ei gofnodi a'i storio yn helpu ymarferwyr i gofnodi'n gyson. |

# Beth ddysgon ni

Mae ein sgyrsiau hyd yn hyn wedi amlygu awgrymiadau ar gyfer beth sydd angen i ni ddechrau ei wneud i wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gofal.

Rydym wedi amlygu nifer o 'rwystrau' cyfredol (rhai canfyddedig neu rai go iawn). Gallai'r rhain fod yn ddiwylliannol, neu'n seiliedig ar dechnoleg. Mae rhai 'rhwystrau' yn berthnasol i'r system iechyd a gofal gyfan.

| Rhwystrau | Manylion |
|---|---|
| **Diffyg Gwybodaeth** | • Ofnau ym maes gofal cymdeithasol ynghylch rhannu data, a chamddealltwriaeth ynghylch beth y gellir ei rannu<br>• Gall pobl sydd â phrofiad personol boeni am sut y rhennir eu data a ffiniau rhannu data<br>• Mae rhai pryderon ymhlith staff rheng flaen ynghylch cofnodi'n ffurfiol pa ofal a chymorth y maent yn eu darparu "oherwydd eu bod nhw'n ofni y bydd rhaid iddynt gadw at y cynllun gofal" |
| **Cyflwyniad** | • Mae'r ffordd y cyflwynir data yn aml yn 'ymwneud â'r' unigolyn ond nid yw'n cynnwys yr unigolyn yn ei ddatblygiad |
| **Llywodraethu** | • Nid yw'r wybodaeth gywir bob amser yn cael ei chofnofi yn y lle cyntaf |
| **Hyder y gall data helpu** | • Nid oes llawer o 'straeon da' ynghylch rhannu data. Mae'r straeon a glywir yn canolbwyntio ar y risgiau yn hytrach na'r buddion a'r cyfleoedd |
| **Ansawdd data** | • Diffyg cysondeb o ran safonau data<br>• Mae rhai o'r systemau a ddefnyddir i storio cofnodion yn rhai hŷn nad ydynt yn caniatáu rhannu data'n hawdd |
| **Rhannu data** | • Nid oes gan bobl fynediad at y systemau cywir i gofnodi data, er enghraifft ni all ymarferwyr gofnodi data ansoddol yn hawdd<br>• Mae cyswllt data gwael ar draws systemau. Hyd yn oed pan mae cofnod, mae anodd gweld yr unigolyn cyfan o hyd |

# Rhwystrau rhag ymgysylltu

Pan rydym wedi adolygu rhaglenni data blaenorol ac wedi siarad â rhai o'r bobl yr effeithir arnynt, rydym wedi nodi rhai materion negyddol y dylem fod yn ymwybodol ohonynt wrth i ni ddylunio rhaglenni newydd. Mae'r rhain yn berthnasol ar draws y gweithlu a phobl sydd â phrofiad personol.

### Cynhwysiad Digidol: sut gall y 'rhaniad data' greu rhwystrau rhag cynhwysiad

Mae angen i'n mentrau feithrin cynwysoldeb gan fod angen i ni sicrhau nad yw pobl o dan anfantais os nad ydynt am wneud hynny, neu na allant ymgysylltu drwy sianeli digidol. Fodd bynnag, mae profiadau blaenorol yn awgrymu bod dylunio da yn caniatáu i'r rhwystrau gael eu goresgyn. Er enghraifft, darparodd prosiect Mesur y Mynydd offer TG a chefnogodd gyfranogwyr gyda hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio.

### Ymrwymiadau amser: i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth

Mae dysgu o brosiectau llwyddiannus yn dangos bod ymgysylltu a chyd-gynhyrchu da yn cymryd amser ac yn mynnu adnoddau penodol. Nodir bod meithrin ymddiriedaeth gyda chyfranogwyr yn ffactor llwyddiant.

### Ariannol: sut bydd pobl yn cael eu digolledu am gymryd rhan

Mae adolygu ymgysylltiad llwyddiannus wedi amlygu pwysigrwydd talu'n briodol am gyfranogiad. I'r aelodau hynny o'r gweithlu na fyddent fel arfer yn cael amser â thâl i gymryd rhan, dylai hyn fod yn ystyriaeth hefyd. Mae prifysgolion wedi llwyddo i ddarparu taliadau, ond gall hyn fod yn fwy heriol i sefydliadau eraill oherwydd y goblygiadau treth i gyfranogwyr.

### Cysbwyso safbwyntiau/buddiannau: gwneud penderfyniadau agored a thryloyw

Ar draws gofal cymdeithasol, mae ystod eang o grwpiau'n cael eu cefnogi ac mae eu hanghenion, eu dyheadau a'u profiad yn amrywio (hyd yn oed o fewn grwpiau a allai ymddangos fel pe bai ganddynt fuddiannau cyffredin). Bydd angen i'r llywodraethu cyffredinol fod yn ymwybodol o'r angen i gael barn gytbwys.

# Ble mae ymgysylltu'n gweithio'n dda

Amlygom y meysydd canlynol o arfer gorau yng Nghymru rydym eisiau dysgu oddi wrthynt ac adeiladu arnynt

Mae **Patients Know Best** yn llwyfan menter gymdeithasol a thechnoleg a ddyluniwyd i ddod â data cleifion gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol a data'r claf ei hun at ei gilydd mewn un cofnod iechyd personol diogel. Mae'n defnyddio porth ar-lein sy'n rhoi mynediad ar unwaith i gleifion at eu cofnodion meddygol.

Gall cleifion gael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am driniaethau, meddyginiaeth, alergeddau a mwy o unrhyw ddyfais. Gellir rhannu'r wybodaeth hon gyda gwahanol dimau meddygol a gofalwyr. Gall cleifion hefyd gael gafael ar negeseuon gan glinigwyr, canlyniadau profion ac ati. Mae Patients Know Best yn cael ei weithredu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMU) (ar gyfer cleifion â diabetes a gyda methiant y galon, yn ymestyn i COPD a Parkinson's) a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (ar gyfer cleifion ENT).

Mae'r **James Lind Alliance** yn ceisio dod â chleifion, gofalwyr a gweithwyr iechyd a gofal at ei gilydd i sicrhau bod gan bawb lais cyfartal wrth bennu blaenoriaethau ymchwil ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ddiweddar, bu Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn proses hwylus yn seiliedig ar ddull pennu blaenoriaethau'r JLA, i nodi blaenoriaethau ymchwil ar gyfer gofal a chymorth i bobl hŷn.

Daeth **Mesur y Mynydd** â thrawstoriad o bobl ledled Cymru at ei gilydd (nid y rheiny â phrofiad personol yn unig). Er nad oes canfyddiadau helaeth sy'n benodol i ddata (nid oedd hyn o fewn y cwmpas yn benodol) mae meysydd i ddysgu ohonynt, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Talwyd y cyfranogwyr am eu hamser, a rhoddwyd offer TG iddynt
- Roedd ymgysylltu ar-lein yn llwyddiannus ac roedd y cyfranogwyr yn ymgysylltu'n dda

Cafwyd cefnogaeth weladwy gan Weinidogion, a chymeradwyaeth ar gyfer y camau nesaf

**Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)**: Mae'r SYG wedi cyhoeddi ymchwil ynghylch agweddau'r cyhoedd at ddata a rhannu data. Mae barn y cyhoedd am dderbynioldeb defnyddio data personol at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn wahanol yn ôl pwy sy'n defnyddio'r data ac at ba ddiben. Er nad yw tri chwarter o'r cyhoedd yn gwrthwynebu rhannu data â'r SYG, cododd tua thri chwarter ohonynt bryderon am rannu data yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae derbynioldeb y cyhoedd o ran defnyddio data yn cael ei wella drwy:

- gyfathrebu priodol, yn arbennig gwybod pa ddefnydd a wneir o'r data a pha fanteision fydd yn deillio
- sicrhau bod mesurau diogelu sy'n ymwneud â diogelwch a phreifatrwydd ar waith a'u bod yn cael eu cyfleu'n effeithiol

# Mewnwelediad rhyngwladol

Yn rhyngwladol, cyfeirir yn gyffredin at data fel ‘yr aur newydd’. Fel rhan o ddatblygu'r cam cyflym ymlaen hwn, rydym ni wedi amlyg

Nid yw pobl bob amser yn deall beth mae ‘llywodraethau’ yn eu casglu a pham, a’u rôl wrth helpu i’w sicrhau.

Rhaid dod â ffynonellau data gwahanol at ei gilydd. Mae darparu’r data hyn mewn fformat ‘parod ar gyfer dadansoddi’, gan ganiatáu i berthnasoedd neu batrymau ystadegol gael eu llunio, yn her allweddol.

Mae'r risg o niwed posibl o ganlyniad i fynediad at ddata yn ddiriaethol ond yn isel. Gellir gostwng lefel y risg ymhellach drwy fecanweithiau llywodraethu effeithiol.

Bu ymdrechion i ddeall agweddau poblogaeth. Mae’r rhain wedi datgelu agweddau amrywiol at breifatrwydd – nid yw’r rhain bob amser yn cael eu harchwilio na’u mynegi’n dda.

Bu ffocws ar sicrhau bod ymarferwyr yn gallu cael mynediad at ymchwil perthnasol o ansawdd uchel

# Gallwn weithio gyda'n gilydd i greu newid

Rydyn ni eisiau sicrhau ein bod yn deall profiadau, safbwyntiau a syniadau'r rheiny sy'n defnyddio gofal a chymorth, eu gofalwyr a phobl sy'n gweithio ym maes gofal a chymorth. Rydyn ni hefyd eisiau cydweithio i lunio atebion sy'n mynd i'r afael ag anghenion y rheiny sy'n defnyddio gofal a chymorth, gofalwyr a phobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

Mae ein cymunedau ar gyfer ymgynghori yn cynnwys:

- **Y gweithlu** – Unrhyw un sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol
- **Gofalwyr** – Mae'r rhain yn bobl sy'n rhoi gofal, ond heb dâl
- **Pobl** – Y bobl hynny sy'n derbyn gofal a chymorth
- **Awdurdodau lleol** – Y rhain sy'n cyflwyno neu drefnu gofal
- **Darparwyr** – Gan gynnwys BBaChau o'r sector annibynnol a'r 3ydd sector

Lle bynnag y bo modd, byddwn ni'n defnyddio ein dull ymgysylltu presennol gydag awdurdodau lleol, darparwyr a rhanddeiliaid eraill i wneud y defnydd gorau o amser pobl ac osgoi dyblygu. Mae gan y sefydliadau hyn rôl bwysig i'w chwarae fel cyflogwyr, yn ogystal â chreu, cofnodi a dadansoddi data.

## Rhoi dinasyddion wrth wraidd y rhaglen

Mae pobl yn aml yn rhyngweithio â systemau gofal ar adegau allweddol yn eu bywyd, ac yn aml mewn argyfwng. Mae sicrhau bod iechyd a gofal wedi cael eu dylunio o amgylch y defnyddiwr terfynol a'r rheiny sy'n gweithio yn y maes yn hanfodol ar gyfer darparu ansawdd gofal parhaus ac integredig.

Mae profiad wedi dangos bod dylunio o'r tu allan i mewn – drwy farn y claf/unigolyn neu'r cyflogai – yn darparu arwyddbost ar gyfer beth sy'n iawn. Mae dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl yn deall anghenion a disgwyliadau pobl ac yn mapio'r rheini ochr yn ochr ag ymarferwyr ar draws taith y defnyddiwr.

Amlygodd y gweithdy cyntaf, er bod rhannu data yn rhan bwysig o waith ymgysylltu'r strategaeth ddata, mai dim ond un rhan o'r pos ydyw. Felly, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o sut y gallwn ymgysylltu â phobl drwy gydol y strategaeth ddata.

Mae ymgysylltu'n gyson â phobl sydd â phrofiad personol, gofalwyr, gweithwyr gofal a'r cyhoedd yn ehangach yn hanfodol er mwyn sicrhau yr ymgynghorir â phobl drwy ddatblygu a gweithredu'r strategaeth ddata, a bod gwella bywydau a chanlyniadau gwasanaethau wrth wraidd popeth a wnawn. Mae ymgysylltu ystyrlon yn hanfodol er mwyn dangos bod cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi a'u hadlewyrchu yn ein gweithredoedd.

Bydd y cam cyflym ymlaen hwn yn dylunio dull o ymgysylltu â dinasyddion ac ymarferwyr drwy gydol y strategaeth ddata.

# Ein hymagwedd ar gyfer y dyfodol

**Gwerthuso'r hyn sydd wedi'i wneud yn y sector o'r blaen**

Byddwn yn edrych ar ba fathau o ymgysylltu sydd wedi ei wneud yng Nghymru, y DU ehangach ac yn rhyngwladol (ble'n berthnasol) a datblygu fframwaith o opsiynau ar gyfer penderfynu beth allai weithio'n dda i Gymru fod yn fwy effeithlon ac effeithiol gyda'n gwaith.

+

**Dadansoddi'r hyn rydych wedi'i ddweud wrthym yn barod ac asesu gwersi dysgedig**

Gwneud y gorau o'r cyfleoedd a nodwyd yn y cyfnod darganfod, megis Mesur y Mynydd a mathau eraill o ymgysylltu â dinasyddion o gwmpas data i gasglu gwersi a sicrhau'r cyfan a gwneud yn siŵr fod dysgu yn cael ei fwydo i mewn i'n hymagwedd. Nid ydym eisiau parhau i ofyn yr un cwestiynau ond rydym am eu nodi bylchau yn ein gwybodaeth.

→

**Dylunio ymagwedd at ymgysylltu â phobl drwy gydol y strategaeth data**

Byddwn yn dylunio egwyddorion ar gyfer arfer da ymgysylltu. Bydd hyn yn bwydo i mewn i ein cynllun ar gyfer ymgysylltu gyda dinasyddion ac ymarferwr drwy gydol y strategaeth. Bydd hyn yn cynnig gwahanol ffyrdd o ymgysylltu, a gallai hyn fwydo i mewn i lywodraethu'r prosiect. Byddwn ni'n mynd a'r hyn rydym yn ei ddysgu at grwpiau eraill, i wneud yn siŵr ein bod ni wedi gwneud hyn yn iawn.

# Egwyddorion drafft ar gyfer ymgysylltu

Ar sail yr hyn rydym wedi'i ddysgu hyd yn hyn, cynigir yr egwyddorion canlynol ar gyfer ymgysylltu â'r rhaglen gyfredol:



Byddwn yn sicrhau mai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu gofalwyr, a gweithwyr gofal sy'n llywio'r rhaglen. Nid rhywbeth ychwanegol mo hwn, fel hyn rydym yn gweithio drwy gydol oes y rhaglen.

Byddwn yn sicrhau bod pobl sy'n ymwneud â'r rhaglen yn cael eu hysbysu ac yn deall y canlyniad a'r effaith o'u hymwneud.

Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn gwrando ar bobl nad ydynt bob amser yn cael eu clywed. Byddwn yn gwneud hyn yn rhagweithiol, yn monitro'r ymgysylltu i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr

Byddwn yn parchu amser pobl ac yn eu digolledu yn unol â hynny, gan sicrhau ein bod yn adeiladu ar brofiadau blaenorol.

Byddwn yn hyrwyddo ac yn ariannu ymchwil gynhwysol a arweinir gan ddefnyddwyr, ac yn meithrin gallu yn y sector i wneud hyn

Byddwn yn ymdrechu i sicrhau gwelliant parhaus ac yn agored i newid ein hymagwedd yn ôl yr angen trwy ein llywodraethu cynhwysol.
Rydyn ni'n gwybod na chawn ni bopeth ar y cychwyn.

Mae sefydliadau ledled Cymru wedi ymrwymo i egwyddorion ymgysylltu â'r cyhoedd a grëwyd gan WCVA, a byddwn yn defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd https://wcva.cymru/influencing/engagement/

## Camau nesaf

Nid oes llinell sylfaen gynhwysfawr o sut mae pobl sydd â phrofiad bywyd, eu gofalwyr a'u gweithwyr gofal yn teimlo am rannu data. Mae rhai mewnwelediadau yn ein helpu i wybod ble ddylem ganolbwyntio, ond mae dal angen sefydlu ar lefel 'boblogaeth' beth mae pobl yn ei feddwl, yn ei deimlo a'r hyn hoffent ei flaenoriaethu.

Bydd angen i ni:

1. sefydlu gwaelodlin o agweddau
2. sicrhau bod y rhaglen yn cynnwys y grwpiau hyn yn llawn.

- Creu cynllun cyfathrebu rhanddeiliad
- Ymgysylltu a chyd-ddylunio gyda'r cyhoedd a phobl gyda phrofiad bywyd
- Adnabod a gweithredu agwedd gydgynghorol, gyfranogol a democrataidd at ymgysylltu, megis rheithgorau dinasyddion neu chynulliadau
- Creu panel data'r gweithlu. Creu llinell sylfaen o farn ymarferwyr
- Adeiladu llyfrgell o arfer da er mwyn ymgysylltu gyda dinasyddion. Ystyried sefydlu cymuned ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn rhannu gwybodaeth ac i gynnig cymorth

# 04

# Galluogi rhannu data gyda SAIL ac eraill





# Cefndir

## Beth yw'r cam cyflym ymlaen hwn?

Mae'r cam cyflym ymlaen hwn yn ymwneud ag archwilio ffyrdd o wella ac annog rhannu a chysylltu data awdurdodau lleol â Banc Data SAIL, a sefydliadau allweddol eraill.

Cysylltu data, neu gysylltu cofnodion, yw'r broses o amlygu, paru ac uno cofnodion o setiau data niferus sy'n cyfateb i'r un unigolyn neu hunaniaeth.

Wrth rannu data, gall fod yn anodd cysylltu unigolyn ar draws setiau data niferus – yn enwedig os yw'n ddienw. Mae cysylltu data yn mynd i'r afael â'r her hon, gan gyfoethogi dyfnder y data a galluogi mewnwelediad mwy pwerus.

## Pam mae'n bwysig?

Mae rhannu a chysylltu data rhwng sefydliadau yn cynnig cyfleoedd ymchwil newydd ac yn cryfhau'r casgliadau a dynnwyd o'r data.

Mae hyn yn caniatáu i sefydliadau fanteisio ar werth data ei gilydd, gwella dealltwriaeth o 'beth sy'n gweithio', a sut i wella ansawdd gwasanaethau.

Mae cefnogi cysylltu data yn cynnwys rhoi hyder i ddinasyddion bod eu gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel.

Amlygodd ein cyfnod darganfod gwella rhannu a chysylltu data awdurdodau lleol yn faes ffocws posibl ar gyfer cam cyflym ymlaen. Mae sgyrsiau mwy diweddar gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn awgrymu y gallai fod meysydd eraill i'w harchwilio.

# Beth yw canlyniadau dymunol y cam cyflym ymlaen hwn?

Cyfleu buddion rhannu data ac annog sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o'r data sydd ar gael i ymchwilwyr a dadansoddwyr

Symleiddio prosesau rhannu data a llywodraethu gwybodaeth, lleihau costau a gwella effeithlonrwydd

Gwneud gwelliant pendant i ba mor hawdd y gall sefydliadau gasglu, defnyddio a dadansoddi data gofal cymdeithasol greu cysylltiadau rhwng setiau data a rennir.

Darparu dadansoddiad a mewnwelediad gwerthfawr I'r rheiny sy'n rhannu eu data.

## Sut bydd y cam cyflym ymlaen hwn yn cyflawni hyn?

- Archwilio digideiddio cytundebau rhannu data ac Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIAs)
- Archwilio lleihau rhwystrau rhag rhannu data awdurdodau lleol gyda SAIL a sut i gefnogi cysylltu data
- Amlygu a chyflymu gwaith parhaus arall yn y maes hwn

# Rhannu mewnwelediad gweithredol


Awgrymodd adborth o drafodaethau gydag awdurdodau lleol y byddai anogaeth a chymhellion yn gwella amlder a maint y rhannu data gyda SAIL.

Un cymhelliant efallai yw cynnig gwelededd a dadansoddiad i awdurdodau lleol o'r setiau data y maent yn cyfrannu atynt, o bosibl ar ffurf dangosfyrddau.

**Cam 1**
O bryd i'w gilydd, mae awdurdodau lleol yn lanlwytho data sy'n ymwneud â'r set ddata dan sylw, sy'n cwmpasu'r cyfnod diweddaraf.
Mae’r data a uwchlwythwyd yn cydymffurfio â thempled safonol, ac yn cael ei uwchlwytho gan ddefnyddio dull safonol SAIL



**Cam 2**
Mae SAIL yn derbyn ac yn prosesu'r data a uwchlwythwyd.
Mae dangosfwrdd sy'n cael ei yrru gan y data hwn yn cael ei adnewyddu pan dderbynnir yr holl ddata ar gyfer y set ddata a'r cyfnod penodol



**Cam 3**
Mae gan ddefnyddwyr cymeradwy o bob awdurdod lleol ganiatâd i fynd at y dangosfwrdd.
Mae gwelededd y dangosfwrdd wedi'i gyfyngu i'r awdurdodau lleol sy'n cyfrannu eu data yn rheolaidd



# Allgymorth a chyfleu manteision rhannu

Mae rhwystr posibl rhag rhannu data â SAIL yn gysylltiedig â phryderon ynghylch rhannu data, a dealltwriaeth o bwy yw SAIL, beth maen nhw'n ei wneud, sut i ymgysylltu â nhw, a beth yw'r manteision.

Er mwyn goresgyn y rhain, rydym yn argymell ymarfer â ffocws i ledaenu gwybodaeth i awdurdodau lleol am rannu data a SAIL, ac ymdrechion tymor hwy i wneud data. Mae'r argymhellion yma'n cynnwys syniadau o weithdy a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2021.

Mae'n debygol y bydd gan awdurdodau bryderon a chwestiynau ynghylch rhannu data, er enghraifft:

- Pam dylwn i wneud hyn?
- Sut ydw i'n gwneud hyn?
- Gyda phwy ydw i'n gwneud hyn?
- A yw'n ddiogel?
- Pwy yw SAIL?
- Beth maen nhw'n ei wneud?
- Beth ydw i'n ei gael?

# Beth ddysgon ni (1)

**Galluogwyr**

- Mae SAIL wedi cynhyrchu canfyddiadau ymchwil nodedig, fel Born into Care (https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/born-into-care-wales), sef adroddiad ar famau a babanod sy'n dod i achosion gofal. Mae ymwybyddiaeth gynyddol bod cysylltu data yn bosibl a hefyd ynghylch y cyfle i gael mewnwelediad newydd.
- Mae cyfranogwyr mewn cyfarfodydd a gweithdai yn dangos bod rhannu'n cael ei ystyried yn beth da sydd i'w annog, a bod y safbwynt hwn yn cael ei gynnal ymhlith uwch randdeiliaid a gwneuthurwyr penderfyniadau.
- Mae cael data yn y fformat cywir yn cymryd amser ond ar ôl gwneud hyn, mae'n hawdd ei lanlwytho i SAIL.

**Heriau**

- Dogfennaeth Llywodraethu Gwybodaeth (IG) yw'r un rhwystr mwyaf a amlygwyd, gan ei fod yn gymhleth, yn anodd ei gwblhau, ac yn cymryd llawer o amser.
- Mae gormod o dempledi cytundeb IG gwahanol yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn cynyddu cymhlethdod, ansicrwydd, risg a faint o amser y mae'n ei gymryd i brosesu cytundebau.
- Mae cymeradwyaethau mewnol yn heriol. Mae angen sawl cymeradwyaeth, sy'n golygu y gallai fod angen argyhoeddi nifer o randdeiliaid sydd ag amrywiaeth o safbwyntiau neu bryderon.
- Mae pryderon diogelwch yn ffactor, yn enwedig lle mae unrhyw dechnoleg yn rhyngwynebu â gweinyddwyr awdurdodau lleol.
- Mae ansawdd data yn bryder. Rhaid i'r data sy'n cael ei rannu fod o ansawdd digon uchel i adlewyrchu'r gwirionedd ar lawr gwlad, a'i ddeall gan ymchwilwyr sy'n ei ddefnyddio mewn cyd-destunau eraill. Gall rhai ffeithiau sylfaenol (e.e. nifer y gofalwyr di-dâl mewn ardal) fod yn anodd eu hamlygu, gan ddibynnu ar sut y cedwir y wybodaeth hon mewn systemau, a gellid ei gwneud mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol awdurdodau lleol, gan wneud cymariaethau uniongyrchol yn fwy heriol.

# Beth ddysgon ni (2)

| | |
|---|---|
| **Ymgysylltiad** | • Mae ymrwymiad staff yn bwysig er mwyn cynnal ansawdd data.<br>• Mae baich mewnbwn data yn uchel ond nid yw gwerth neu effaith yn amlwg i'r staff rheng flaen sy'n ei wneud.<br>• Gallai'r rheiny sy'n defnyddio data ymhellach i lawr y broses, gan gynnwys SAIL, wneud mwy o waith allgymorth i godi ymwybyddiaeth o'r gwerth hwn.<br>• Rydym yn deall bod ymwybyddiaeth gynyddol o SAIL, ond nid yw'n hysbys yn eang o hyd. Nid yw'n amlwg ar unwaith i bobl nad ydynt yn arbenigo mewn data beth mae SAIL yn ei wneud na'i werth pan fyddant yn ceisio ymgysylltu (e.e. drwy bori’r wefan). |
| **Hygyrchedd** | • Roedd canfyddiad bod SAIL yn cael gwybodaeth a data ond gall fod yn anodd i'r rheiny mewn awdurdodau lleol gael unrhyw beth yn ôl yn gyfnewid.<br>• Er bod SAIL yn gallu gwneud cymariaethau pwysig rhwng awdurdodau lleol, roedd pryder y gallai hyn fod yn heriol i rai ALlau lle mae'n datgelu gwahaniaethau mewn perfformiad. |
| **Mewnwelediad gweithredol a allai fod yn ddefnyddiol gan SAIL** | • Cysylltu ffynonellau data eraill (e.e. Buddion gwybodaeth neu ddata meddygon teulu) i amlygu'r rheiny sy'n ofalwyr ond sy'n anhysbys i'r ALl, i:<br>○ Amlygu lleoliadau daearyddol lle caiff gofalwyr lai o wasanaethau.<br>○ Amlygu cyflyrau neu anghenion iechyd a lles nad ydynt yn cael eu bodloni ar hyn o bryd. |

# Y camau nesaf

## Cyfleoedd ar gyfer gwella

Gan ddefnyddio adborth gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol, rydyn ni wedi amlygu cyfleoedd ar gyfer gwaith i fynd i'r afael â rhwystrau rhag rhannu data awdurdodau lleol â SAIL. Rydym yn argymell mabwysiadu dull partneriaeth. Mae cynnwys sefydliadau priodol, ac ennill eu cefnogaeth, yn allweddol i ddarparu adnoddau a hybu llwyddiant.

| | Cyfle | Disgrifiad cryno |
|---|---|---|
| 1 | Digido prosesau llywodraethu gwybodaeth â llaw ar bapur i ganiatáu rhannu gwybodaeth yn gyflymach ac yn fwy dibynadwy rhwng sefydliadau gofal. | Byddai llwyfan digidol canolog yn gwella ac yn moderneiddio'r gwaith o weinyddu ac asesu risg rhannu gwybodaeth.<br><br>Gallai hyn gynyddu nifer y cytundebau yn sylweddol gan hefyd dorri'r baich rheoli risg a’r baich weinyddol. Byddai'n grymuso sefydliadau i rannu gwybodaeth ar draws ffiniau gofal mewn ffordd na all y systemau papur presennol ei wneud. |
| 2 | SAIL, a sefydliadau eraill lle y bo'n briodol, i fuddsoddi mewn mecanwaith i rannu mewnwelediad gweithredol a setiau data yn haws gyda phartneriaid sy'n rhannu eu data eu hunain. | Mae adborth yn dangos nad oes llawer o gymhellion i awdurdod lleol rannu eu data â SAIL. Er mwyn darparu cymhelliant o'r fath, gallai SAIL ystyried cynnig rhywbeth yn gyfnewid am annog cyfranogiad.<br><br>Gallai hyn fod ar ffurf dadansoddiad a dangosfyrddau neu gyhoeddiadau mewnwelediad ar wahanol setiau data. Byddai'r mewnwelediadau'n berthnasol i dimau gweithredol ar y rheng flaen o ran darparu gofal. Dim ond i'r awdurdodau lleol hynny sy'n cyfrannu eu data y byddai'r rhain ar gael. |
| 3 | Allgymorth a chyfleu manteision rhannu i awdurdodau lleol. | Efallai na fydd awdurdodau sy'n canolbwyntio llai ar ddata yn ymwybodol o fanteision rhannu data, pwy yw SAIL, a beth allan nhw ei gynnig.<br><br>Rydym yn awgrymu estyn allan at arweinwyr perthnasol ym mhob awdurdod a rhoi iddynt y canllawiau sydd eu hangen arnynt i ddeall y cynnig, er mwyn ennyn brwdfrydedd ac ymgysylltiad. |

# Peilota'r porth rhannu gwybodaeth i Gymru

**Heriau presennol**

Mae sefydliadau Gofal Cymdeithasol yn cydnabod y manteision rhannu gwybodaeth.

Ond, mae rheoli llif o wybodaeth rhwng sefydliadau trwy system papur yn hynod o heriol:

- **cymryd llawer o amser**
- **anhyblyg**
- **dryslud**
- **llafurus i olrhain ac arwyddo**
- **cytundebau yn cael eu holrhain a'u rheoli â llaw trwy daenlenni, cytundebau papur, Sharepoint, llofnodion wedi'u sganio, ac ati.**


**Y cyfle**


Byddai porth rhannu gwybodaeth yn cefnogi rhannu gwybodaeth yn electronig ar draws gofal ffiniau yng Nghymru.

- **storio'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â rhannu'n un lle**
- **rheolau cyffredin ar rannu gwybodaeth**
- **mapio llif data i gyd mewn un lle**
- **awtomeiddio prosesau**
- **monitro awtomataidd, e.e. rhybuddio pa bryd mae cytundebau'n dod i ben**
- **cefnogaeth dechnegol i ddefnyddwyr**

**Manteision**

- **gwell rhannu –** datgloi manteision mwy o rannu
- **cydymffurfiaeth –** lleihau'r risg o beidio â chyflawni gofynion rheoleiddio
- **llai o amser a chost –** llawer cyflymach a rhatach na dull papur
- **hyder –** bod y rheoliadau diogelu data'n cael eu bodloni
- **tryloywder -** deall ble mae rhannu'n cymryd lle ac unrhyw ofynion
- **ymddiriedaeth -** yn llywodraethu gwybodaeth ein gilydd
- **effeithlonrwydd -** tynnu papur o'r broses a gwneud mwy gyda llai o ymdrech
- **cysondeb –** symud tuag at un set gyson o dempledi cytundebau sy'n hawdd i'w deall. Mae hyn yn lleihau unrhyw ganfyddiad o risg ac yn gwneud cytundebau'n haws i'w prosesu.
- **awtomatiaeth –** er enghraifft hysbysu defnyddwyr pa bryd mae cytundebau'n dod i ben i leihau'r risg o ddiffyg cydymffurfio, a llofnodion digidol, sy'n ei gwneud yn haws I gyrraedd llunwyr penderfyniadau.



# 05

# Datblygu data'r gweithlu gofal cymdeithasol





# Cefndir

Mae'r cam cyflym ymlaen hwn yn canolbwyntio ar sut y gellir defnyddio dull newydd o gasglu data'r gweithlu gofal cymdeithasol i rannu mathau newydd o fewnweledfiad ar draws y sector. Amlygodd y cam darganfod hwn yn benodol y potensial i wneud mwy o ddefnydd o ddata'r gweithlu a gasglwyd gennym drwy ei rannu'n ôl ag awdurdodau lleol drwy'r Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Ghymru.

**Beth yw'r cam cyflym ymlaen hwn?**

Rydyn ni'n cyflwyno dull newydd o gasglu data'r gweithlu gofal cymdeithasol gan awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol. Nod y system newydd hon, wedi'i mandadu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Fframwaith Gwella Perfformiad newydd, yw ei gwneud yn symlach a gwella ansawdd y data sy'n cael ei ddychwelyd.

Cesglir y data hwn yn flynyddol gyda diweddariadau rheolaidd i'r dangosfyrddau perthnasol a gyhoeddir ar y Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol.

**Pam mae'n bwysig?**

Mae'r allbwn yn enghraifft o amlygu data gofal cymdeithasol defnyddiol a sicrhau ei fod ar gael i:

- arddangos y fethodoleg 'cam cyflym ymlaen' – amlygu a gweithredu cyfleoedd clir y gellir eu gweithredu i newid sut y defnyddir data er gwell
- fodelu rôl yr ymddygiadau y mae'r strategaeth ddata yn gobeithio eu hannog, o ran amlygu a rhannu'n rhagweithiol ddata a allai fod yn ddefnyddiol i eraill
- ddangos gwerth posibl adeiladu a gwella offer data yn raddol, er budd partneriaid ar draws gofal cymdeithasol.

# Beth yw canlyniadau dymunol y cam cyflym ymlaen hwn?

Gall awdurdodau lleol a chynllunwyr y gweithlu fanteisio ar ddata ar y gweithlu ar gyfer mewnwelediadau cymharol, sy'n cefnogi eu gwaith yn cynllunio’r gweithlu.

Gall defnyddwyr eraill archwilio'r data at eu dibenion eu hunain ac amlygu’r cyfleoedd achos â defnydd pellach.


Dangos y gellir defnyddio'r Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru i rannu data mewn ffyrdd newydd.

Mae dadansoddwyr Gofal Cymdeithasol Cymru yn berchen ar y cynnyrch, yn ei ddeall, ac yn ei ailadrodd wrth symud ymlaen, gan ddefnyddio hyn o bosibl fel cam tuag at greu dangosfyrddau eraill yn y dyfodol.

## Sut bydd y cam cyflym ymlaen hwn yn cyflawni hyn?

- Cynhyrchu dangosfwrdd prawf cysyniad a all dderbyn data'r gweithlu, pan gânt eu derbyn, a chael eu cyhoeddi ar y Porth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i Gymru.
- Dogfennau ategol, nodiadau trosglwyddo a sesiynau sgiliau i gyd yn cael eu darparu i ddadansoddwyr sy'n berchen ar y dangosfwrdd yn y dyfodol.
- Darparu argymhellion ar gyfer y camau nesaf a chyfleoedd datblygu pellach hefyd, i wella'r dangosfwrdd a'r gronfa ddata sylfaenol.

# Dyluniad dangosfwrdd - proses



# Beth ddysgon ni


Yn ystod y broses hon, nodwyd nifer o argymhellion a chyfleoedd datblygu pellach. Mae'r rhain fel a ganlyn:


1. Newid o ddangosfwrdd Power BI i ap Power BI:
   - gellir ei drosi ar weithfan Power BI, ar ôl cyhoeddi'r dangosfwrdd.
   - i drosi'r dangosfwrdd yn ap, mae angen trwyddedu priodol ar weithfan Power BI.

2. Alinio thema lliw, cefndiroedd a gosodiadau tudalen i gyd-fynd â'n dangosfyrddau ni
3. Defnyddio hyperddoleni:
   - data agored ar ôl gorffen casglu
   - darparu diffiniadau o'r gweithlu yn y dangosfwrdd er eglurder



# Sampl o’r dangosfwrdd y byddwch yn ei weld



# Y camau nesaf

Amlygwyd cyfleoedd datblygu ychwanegol:

- defnyddio ffynonellau data eraill Gofal Cymdeithasol Cymru neu ehangu'r casgliad cyfredol i greu mesurau newydd a dadansoddi pellach:
    - cyfnod gweithwyr mewn swydd
    - rheswm dros adael cwmni
    - amser rhwng dyrchafiadau
    - dadansoddi cyflogau
    - plymio'n ddwfn i gymwysterau fel prentisiaethau.
- defnyddio data blaenorol y gweithlu i ganiatáu rhyw lefel o gymhariaeth
- ar ôl casglu mwy o ddata, creu cymariaethau a mesurau newid o flwyddyn i flwyddyn
- gweithio tuag at gyhoeddi data'r gweithlu fel ystadegau swyddogol drwy ddilyn cod ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU.

.



# Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care **Wales**

Gofal Cymdeithasol Cymru

Tŷ South Gate
Wood Street

Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
gofalcymdeithasol.cymu

© 2022 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaiff unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei hatgynhyrchu, ei storio mewn system adalw na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd o flaen llaw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai ymholiadau ynghylch atgynhyrchu y tu hwnt i'r cwmpas a ganiateir gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd uchod.

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os bydd angen. Mae'r ddogfen hefyd ar gael yn Saesneg.